

Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

LANSIO RHWYDWAITH CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMR “Adfywio Diogelwch Cymunedol yng Nghymru Gyda’n Gilydd”

WALES SAFER COMMUNITIES NETWORK LAUNCH “Reinvigorating Community Safety in Wales Together”


02/03/2022, 10:00 – 12:00

PECYN LANSIAD ▪ LAUNCH PACK

CYNNWYS ▪ CONTENTS

- 1 Rhaglen**
- 2 Bywgraffiadau Siaradwyr**
- 5 Cwestiynau Cyffredin**
- 8 Adborth ▪ Feedback**
- 10 Agenda**
- 11 Speaker Biographies**
- 14 FAQs**


#cymunedaumwydio gel
#safercommunities



RHAGLEN

Gweithio gyda'n gilydd dros gymunedau mwy diogel ledled Cymru.

- 10:00 1. Croeso a Manylion Ymarferol**
Emma Thomas, Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
- 10:10 2. Prif Siaradwr**
Jane Hutt AS, Gweinidog Cyflawnder Cymdeithasol
- 10:30 3. Cyflwyno'r Cefndir: Adfywio Diogelwch Cymunedol yng Nghymru Gyda'n Gilydd**
Gwir Anrh Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Thro seddu De Cymru, ac Arweinydd Diogelwch Cymunedol ar gyfer Plismona yng Nghymru
Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr presennol Gofal Cymdeithasol a Thai, a Dirprwy Brif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- 10:40 4. Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**
- Cyflwyniad i'r Rhwydwaith**
Emma Thomas
 - Yr hyn a wnaed hyd yma**
Sarah Capstick, Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith
Helen Hill, Swyddog Cymorth Rhwydwaith
 - Gwefan – www.cymunedaumwydiozel.cymru**
Holly Roberts, Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau
 - Aelodaeth a buddion**
Sarah Capstick
 - Beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig**
Emma Thomas
- 11:30 5. Y Camau Nesaf a Chwestiynau**
Pob siaradwr, gydag Emma Thomas yn hwylusydd
- 11:45 6. Cloi**
Cyngorydd Jane Mudd, Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd [eitem fideo]
Gwir Anrh Alun Michael



BYWGRAFFIADAU SIARADWYR

• Jane Hutt AS, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

Treuliodd Jane ran o'i phlentyndod yn Uganda a Kenya, a chafodd ei haddysg ym Mhrifysgol Caint, Ysgol Economeg Llundain a Phrifysgol Bryste. Mae hi wedi byw a gweithio yng Nghymru ers 1972.

Roedd Jane yn aelod etholedig o'r hen Gyngor Sir De Morgannwg am 12 mlynedd, a chafodd ei hethol i'r Cynulliad am y tro cyntaf ym 1999. Rhwng 1999 a 2005 hi oedd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru. Rhwng 2005 a 2007, hi oedd Gweinidog Busnes y Cynulliad a'r Prif Chwip. Yng Nghabinet cyntaf y Trydydd Cynulliad fe'i penodwyd yn Weinidog y Gyllideb a Busnes y Cynulliad.

Yng Nghabinet y glymbiaid, a gyhoeddwyd ar 19 Gorffennaf 2007, hi oedd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Ym mis Rhagfyr 2009, fe'i penodwyd yn Weinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, ac yna yn Weinidog Cyllid tan 2016, pan fe'i penodwyd yn Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.


Ar 13 Rhagfyr 2018, cafodd Jane ei phenodi yn Ddirprwy Weinidog ac yn Brif Chwip.

Penodwyd Jane yn Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar 13 Mai 2021.

Mae Jane Hutt yn gymrawd anrhydeddus o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae hi'n dysgu Cymraeg.

• Gwir Anrh Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, ac Arweinydd Diogelwch Cymunedol ar gyfer Plismona yng Nghymru

Treuliodd Alun chwe blynedd fel adroddwr papur newydd a phymtheg mlynedd fel gweithiwr ieuengtiaid a chymunedol yng Nghaerdydd, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd yn Gynghorydd Dinas Arweiniol ac yn Ynad Heddwch, ac yn cadeirio Mainc Troseddwyr Ifanc Caerdydd, yn dilyn hynny, cafodd ei ethol i'r Senedd ym 1987 fel AS y Blaid Lafur a'r Blaid Gydweithredol ar gyfer De Caerdydd a Phenarth. Fel Gweinidog yr Wrthblaid dros Faterion Cartref o 1992, bu'n paratoi'r sylfeini ar gyfer Deddf Trosedd ac Anhreft 1998; ac fel Dirprwy Ysgrifennydd Gartref o 1997, roedd yn Weinidog ar gyfer y Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu ac yn hyrwyddo gwaith gwirfoddol a'r Sector Gwirfoddol a Chymunedol. Ym 1998, ymunodd â'r Cabinet fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, cyn cael ei ethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru oedd newydd ei sefydlu a daeth yn Brif Ysgrifennydd (Prif Weinidog) cyntaf Cymru. Wedi ymddiswyddo o'r Cynulliad, fe'i gwnaed yn Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Gwledig ac yna'n Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwydiant a'r Rhanbarthau Yn 2006, daeth Alun yn aelod amlwg o'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ac yna'n aelod blaenllaw o'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig gan arwain ystod o Grwpiau Hollbleidiol ar Lywodraethu'r Rhyngrywd, Plismona, Gwirfoddoli a Dyfrffyrrdd. Ymddiswyddodd Alun o'i rôl fel AS ym mis Hydref i sefyll fel Comisiynydd cyntaf yr Heddlu a Throseddu dros Dde Cymru, cafodd ei ethol ym mis Tachwedd 2012 a'i ail-ethol yn 2016. Mae wedi cymell cydweithrediad a phartneriaethau yn yr amgylchedd datganoledig, hyrwyddo gostwng traiss, (yn arbennig mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched), ac "ymyrraeth gynnar" i atal a lleihau niwed, gan weithio'n agos gyda'r Prif Gwnstabl i gadw De Cymru'n ddiogel. Er gwaethaf yr heriau mewn perthynas â chaledi (gan gynnwys colli traean o'r Grant Heddlu), mae Heddlu De Cymru wedi cyflawni cydbwysedd iach rhwng atal trosedd, darparu perfformiad uchel a chryfhau plismona cymunedol a diogelwch cymunedol. Alun yw Arweinydd Grŵp Llafur Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd ac Is-gadeirydd y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd.



BYWGRAFFIADAU SIARADWYR

- **Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr presennol Gofal Cymdeithasol a Thai, a Dirprwy Brif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)**

Naomi Alleyne yw Cyfarwyddwr presennol Gofal Cymdeithasol a Thai, a Dirprwy Brif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), ar ôl bod yn rôl Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyflawnder Cymdeithasol a swyddi eraill gyda'r Gymdeithas ers 2002. Mae ei meysydd cyfrifoldebau yn cynnwys materion yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, tai, diogelwch cymunedol, gan gynnwys y gwasanaeth tân ac achub a'r lluoedd arfog, lloches a mewnfudo. Mae hi'n goruchwyllo ystod o dimau sy'n darparu cefnogaeth i gynghorau a phartneriaid mewn meysydd megis awtistiaeth, creu cymunedau mwy diogel ac ymfudo.


Cyn ymuno â'r Gymdeithas, roedd Naomi yn secondai i Lywodraeth Cymru, gan weithio ar gydraddoldeb hiliol a lloches, a materion yn ymwneud â mewnfudo. Bu'n gweithio gyda dau Gyngor Cydraddoldeb Hiliol, yn swydd Cyfarwyddwr PMY De-ddwyrain Cymru. Gyda chred angerddol o ran pwysigrwydd cydraddoldeb a thegwch ymhob agwedd ar fywyd, mae Naomi wedi bod yn ffodus o gael gweithio gydag ystod o sefydliadau ac unigolion yn hyrwyddo cydraddoldeb a phwysigrwydd democratiaeth leol, gyda'r nod o wella profiadau a chanlyniadau pobl ar draws meysydd polisi cymdeithasol, allweddol.

- **Emma Thomas, Pennaeth Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**

Mae Emma yn ymuno â'r tîm o Heddlu Gogledd Cymru gyda bron i 30 mlynedd o wasanaeth ble roedd yn Bennaeth Dadansoddi Trosedd a Chudd-wybodaeth. Mae cefndir Emma gyda'r heddlu yn cynnwys achosion mawr a difrifol o droseddu cyfundrefnol, arwain gwaith dadansoddi a phrojectau partneriaeth, ac mae hefyd wedi arwain rhaglen ar gyfer pecyn rheoli risg cenedlaethol (MoRiLE). Mae Emma yn ymuno â Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn syth ar ôl cwblhau secondiad gydag Uned Atal Trais Cymru a hi yw is-gadeirydd Rhwydwaith Arloesi a Gwella Data a Dadansoddi Cymru (WDAIN). Mae gan Emma gyfoeth o brofiad ac arbenigedd ac mae'n angerddol iawn dros waith wedi'i arwain gan dystiolaeth, gweithio ar y cyd, atal a gweledigaeth cymunedau mwy diogel Cymru.

- **Sarah Capstick, Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith**

Mae gan Sarah, a ymunodd â'r tîm o Gyngor Trydydd Sector Caerdydd, brofiad helaeth o hwyluso partneriaethau a rhwydweithiau yn y sectorau tai, iechyd, gofal cymdeithasol a lles. Hi oedd Cadeirydd Comisiyny Caerdydd a'r Fro, Grŵp Cyllid a Chyflenwi ar gyfer y Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau ac o Grŵp Partneriaeth Anabledd Dysgu Caerdydd a'r Fro, yn ogystal â chynrychioli arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol CGS o bob rhan o Gymru yn iechyd y Trydydd Sector Gweinidogol, Gofal Cymdeithasol a Chyfarfodydd lles. Mae Sarah wedi bod yn Gadeirydd elusen cam-drin ddomestig, lle defnyddiwyd ei harbenigedd ar lywodraethu da a gweithio mewn partneriaeth yn dda. Mae ganddi radd mewn Astudiaethau Busnes gyda TGCh o'r Brifysgol Agored a chymhwyster mewn Therapi Lleferydd ac Iaith.




BYWGRAFFIADAU SIARADWYR

• Holly Roberts, Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau

Yn siaradwraig Gymraeg rugl ac yn gefnogwr cynwysoldeb, mae Holly yn ymuno â'r Rhwydwaith o'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol lle'r oedd hi'n arwain ar gyfathrebu a digwyddiadau. Gyda gradd mewn Llenyddiaeth Saesneg o brifysgol Caeredin, mae hi'n edrych ymlaen at weithio ym maes diogelwch cymunedol ac yn awyddus iawn i ddechrau rhannu storïau ac amlygu'r gwaith arbennig sy'n cael ei wneud yma yng Nghymru, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ddiogelwch cymunedol.

• Helen Hill, Swyddog Cymorth Rhwydwaith

Gyda thair blynedd ar ddeg o brofiad yn gweithio i Blismona yng Nghymru, mae Helen yn ymuno â'r Rhwydwaith gan wybod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth. Mae gan Helen radd mewn Cymdeithaseg a Throseddeg o Brifysgol Caerdydd ac mae wedi bod yn gysylltiedig â nifer o gynlluniau gwirfoddolwyr cymunedol gan gydnabod ei hymrwymiad a'i hangerdd dros ymgysylltu'n rhagweithiol wrth gadw Cymru yn lle mwy diogel.



Cwestiynau Cyffredin

C. A fydd yna gysyllt rhwng Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel a Bwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol newydd, sy'n cael ei awgrymu yn Strategaeth VAWDASV newydd?


A. Roedd y Rhwydwaith yn rhan o ddatblygu Strategaeth VAWDASV, a gofynnwyd i ni gynnal digwyddiad ymgynghori ac ymgysylltu. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynglŷn â sut i gysylltu'r Rhwydwaith gyda Bwrdd Partneriaeth VAWDASV orau, serch hynny mae yna lawer o gydweithio'n digwydd, er enghraifft, roedd tîm VAWDASV Llywodraeth Cymru yn un o'r prif bartneriaid yng Ngweithdy Sbeicio y Rhwydwaith ym mis Rhagfyr 2021.

C. Bydd cost y ffi ymaelodi yn rhwystr i lawer o sefydliadau dan arweiniad y gymuned sydd yn llygaid a chlustiau i ddiogelwch cymunedol ac allai helpu i lywio'r gwaith yma. Sut byddwch chi'n dod dros yr heriau hyn?

A. Rydym eisiau sicrhau fod pob asiantaeth berthnasol yn gallu bod yn rhan o'r Rhwydwaith, ac mae hynny'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol. Mae sefydliadau cymunedol yn casglu gwybodaeth ac mae ganddynt brofiad lleol a bydd y Rhwydwaith yn elwa o hynny. Rydym wedi dechrau trafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol er mwyn ystyried sut i gyflawni hyn orau. Rydym eisiau sicrhau fod yr aelodaeth yn gweithio i bawb, a dyna pam fod y cynllun ariannol a model ymaelodi'r dyfodol yn cael ei datblygu ar y cyd. Mae hyn yn cynnwys gwrando ar ein partneriaid a chael y trafodaethau hynny o fewn y sefydliadau perthnasol er mwyn dod o hyd i ffordd gynaliadwy o symud ymlaen. Mae trafodaethau gydag Awdurdodau Lleol ar y gweill, ac rydym wedi creu dogfen buddion aelodaeth y gallwch ei lawrlwytho yma.

C. Allai gwefan www.cymunedaumwydiofel.cymru fod yn ystorf a ganolog ar gyfer Adolygiadau Dynladdiad Domestig yng Nghymru?

A. Mae'r dull Adolygiadau Diogelu Unedig Sengl y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei hyrwyddo yn dechrau dwyn ffrwyth. Mae'r gwaith wedi cael ei ddatblygu gan nifer o weithgorau. Bydd gwaith ar yr ystorf a sy'n cael ei arwain gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throedd Dyfed Powys, Dafydd Llywelyn, yn cynnwys Adolygiadau Dynladdiad Domestig yn ogystal â'r adolygiadau diogelu eraill. Bydd hyn yn ffordd bwysig o ddeall beth sydd wedi digwydd mewn nifer o achosion torcalonius er mwyn atal y



Cwestiynau Cyffredin

problemau yma rhag codi yn y dyfodol. Yn ychwanegol, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yw'r sefydliad arweiniol posibl ar gyfer comisiynu i fod yn gyfrifol am ledaenu'r wybodaeth, sydd yn ddio'i hun yn ardystiad cadarnhaol o ddatblygiad y Rhwydwaith.

C. Ydi Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymrwymiad sylweddol ac ariannol parhaus tuag at gost cynnal y Rhwydwaith?


A. Rydym ni'n ddiolchgar iawn am y buddsoddiad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru. Gan symud ymlaen, mae'r Rhwydwaith eisiau gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy. O ystyried hynny, mae cyllid y dyfodol yn ffurfio rhan o drafodaethau parhaus gyda phob partner, yn cynnwys Llywodraeth Cymru.

C. Sut bydd y Rhwydwaith yn cysylltu gyda'r byrddau/rhwydweithiau eraill (er enghraift, Bwrdd Cyfiawnder Troseddol/Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru/Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus) i leihau dyblygu a sefydlu cylch gwaith clir? Sut ydym ni'n osgoi dyblygu ymdrech ac adrodd?

A. Yng Nghymru, rydym ni'n ffodus fod yna lawer o gysylltiadau rhwng y fforymau yma. Nid ydym eisiau dyblygu; rydym eisiau sicrhau bod y cysylltiadau hynny'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y gwaith yn gydlynol. Mae ein gwefan wedi'i sefydlu i'ch helpu chi i wneud y cysylltiadau hynny ac i ddeall y dirwedd gymhleth, ac mae tîm y Rhwydwaith yno i barhau i gynnig y gefnogaeth. Mae yna gymaint o waith da sydd yn mynd rhagddo, ac mae'n gyfle i ni beidio â dyblygu ein hymdreichion, ond yn hytrach i fod yn effeithiol, yn effeithlon, ac i ddysgu o'r arferion da sydd yn cael eu cynnal mewn mannau eraill a chysylltu pobl yn y meysydd cywir. Mae'r Rhwydwaith eisoes yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru i sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu ymdrech ac adrodd.

C. Mae rhannu gwybodaeth yn faes allweddol y dylid ei wella, yn enwedig ym maes iechyd. Allwn ni ailedrych ar ein hagwedd ar hyn gyda'n gilydd? Nid chyflwynwyd Deddf Diogelu Data i atal helpu a chefnogi unigolion, yn enwedig y rhai sydd â nam ar eu gallu i wneud penderfyniadau.


A. Mae'r Rhwydwaith yn gweithio'n agos gyda Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru (WDIIN), sydd yn cael ei Gadeirio gan



Cwestiynau Cyffredin

Gomisiynydd yr Heddlu a Throedd Dafydd Llywelyn, gydag Emma Thomas, Pennaeth y Rhwydwaith yn Is-Gadeirydd. Mae yna lawer o waith yn cael ei wneud yn yr amgylchedd rhannu gwybodaeth, ac mae'r dull a arweinir gan dystiolaeth yn rhywbeth y mae WDAIIN wedi ymrwymo i'w hyrwyddo. Yn ychwanegol, fe allai fod yna gynnrych partneriaeth allweddol (e.e. proffiliau'r farchnad gyffuriau a phroffiliau troseddu cyfundrefnol difrifol lleol) sydd yn golygu bod angen i bawb gymryd rhan, yn enwedig lechyd, er mwyn dod â ffynonellau data ei gilydd, ac mae WDAIIN yn symud ymlaen â hyn.

Mae yna arwyddion gwirioneddol o'r perthnasau yn dod at ei gilydd, er enghraift, rhannu data o fewn yr elfen diogelu y mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd ag o. Un o brif bartneriaid y Rhwydwaith ers y cychwyn ydi lechyd Cyhoeddus Cymru. Nhw hefyd oedd un o'r cyntaf i gamu ymlaen a chefnogi Uned Atal Trais Cymru a'r Rhwydwaith. Mae cydweithwyr ym maes lechyd wedi cael eu heffeithio gan Covid-19 ac maent o dan lawer o bwysau, ond maent yn chwarae elfen allweddol yn y gwaith yma. Fel yr arfer, byddwn angen gweithio'n galed ar y perthnasau yna, yn ogystal â phosibiliadau dadansoddol y mae WDAIIN yn gweithio arno.



ADBORTH ▪ FEEDBACK

**“Diolch yn fawr –
digwyddiad gwych
ac roedd hi mor braf
clywed am waith
gwych y Rhwydwaith
hyd yma!”**

7

**“Diolch i bawb. Roedd hi'n
ddiddorol iawn clywed mwy am y
Rhwydwaith.”**

**“Thank you everyone. Really
interesting to learn more about the
Network.”**

**“Thank you – a
brilliant event and so
great to hear about all
the fantastic work of
the Network so far!”**


7

**“Diolch,
digwyddiad gwych.”**

**“Thank you,
great event.”**

**“Da iawn bawb, digwyddiad
ardderchog.”**

**“Well done all,
excellent event.”**



1. What in your experience is important to Community Safety? / Beth yn eich profiad chi sy'n bwysig i Ddiogelwch Cymunedol?




2. Are there areas that you would like to be strengthened in Community Safety? / A oes unrhyw feysydd yr hoffech eu cryfhau mewn Diogelwch Cymunedol?



*Sgrin luniau a gymerwyd o'r atebion fel y cyflwynwyd "yn fyw" yn ystod y digwyddiad Lansio.


*Screen shots taken of the answers as submitted "live" during the Launch event.



AGENDA

Working together for safer communities across Wales.

- 10:00 1. Welcome and Housekeeping**
Emma Thomas, Head of Wales Safer Communities Network
- 10:10 2. Keynote Speaker**
Jane Hutt MS, Minister for Social Justice
- 10:30 3. Setting the Scene: Reinvigorating Community Safety in Wales Together**
Rt Hon Alun Michael, Police and Crime Commissioner for South Wales, and Community Safety Lead for Policing in Wales
Naomi Alleyne, Director of Social Services and Housing, and Deputy Chief Executive at the Welsh Local Government Association (WLGA)
- 10:40 4. Wales Safer Communities Network**
- **Introduction to the Network**
Emma Thomas
 - **What we've done so far**
Sarah Capstick, Business & Network Development Manager
Helen Hill, Network Support Officer
 - **Website – www.safercommunities.wales**
Holly Roberts, Communications and Events Manager
 - **Membership and benefits**
Sarah Capstick
 - **What the future holds**
Emma Thomas
- 11:30 5. Next Steps and Questions**
All speakers, with Emma Thomas as facilitator
- 11:45 6. Close**
Councillor Jane Mudd, Leader of Newport City Council [video item]
Rt Hon Alun Michael



SPEAKER BIOGRAPHIES

- **Jane Hutt MS, Minister for Social Justice**

Jane spent part of her childhood in Uganda and Kenya, and was educated at the University of Kent, the London School of Economics and Bristol University. She has lived and worked in Wales since 1972.

Jane was an elected member of the former South Glamorgan County Council for 12 years and was first elected to the Assembly in 1999. Between 1999 and 2005 she served as Minister for Health and Social Services in the Welsh Government. From 2005 to 2007, she was Minister for Assembly Business and Chief Whip. In the first Cabinet of the Third Assembly she was appointed Minister for Budget and Assembly Business.


In the coalition Cabinet, announced on 19 July 2007, she became Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills. In December 2009 she was appointed Minister for Business and Budget, subsequently Minister for Finance until 2016 when she was appointed Leader of the House and Chief Whip at the start of the Fifth Assembly.

On 13 December 2018 Jane was appointed Deputy Minister and Chief Whip. Jane was appointed Minister for Social Justice on 13 May 2021.

Jane Hutt is an honorary fellow of Cardiff Metropolitan University and Cardiff and Vale College. She is a Welsh learner.

- **Rt Hon Alun Michael, Police and Crime Commissioner for South Wales, and Community Safety Lead for Policing in Wales**

After six years as a newspaper reporter and 15 years as a youth and community worker in Cardiff – during which time he was a leading City Councillor and a Justice of the Peace, also chairing the Cardiff Juvenile Bench) – Alun was elected to Parliament in 1987 as Labour & Co-operative MP for Cardiff South & Penarth. As Shadow Minister for Home Affairs from 1992, he prepared the ground for the Crime & Disorder Act 1998; and as Deputy Home Secretary from 1997, he was Minister for the Police and Criminal Justice and promoted volunteering and the Voluntary & Community Sector. In 1998 he joined the Cabinet as Secretary of State for Wales, was elected to the National Assembly for Wales and became the first “First Minister” of Wales. After standing down from the Assembly, he became the first Minister of State for Rural Affairs and subsequently Minister of State for Industry and the Regions. From 2006, Alun played a leading role on the Select Committees for Justice and then Home Affairs as well as Welsh Affairs and leading a variety of Parliamentary Groups on Internet Governance, Policing, Volunteering and Waterways. Alun resigned as an MP in October 2012 to stand for the newly created position of Police and Crime Commissioner for South Wales, to which he was elected in November 2012 and re-elected in 2016. He has driven co-operation and partnership in the devolved environment, promoted violence reduction, (especially tackling violence against women and girls), and “early intervention and prompt positive action” to prevent and reduce harm, working closely with the Chief Constable to keep South Wales safe. Despite the massive challenges of austerity (including the loss of a third of the Police Grant), South Wales Police has achieved a healthy balance between preventing crime, delivering high performance and strengthening neighbourhood policing and community safety. Alun is the Leader of the Labour Group of Police & Crime Commissioners and Vice Chair of the Association of Police & Crime Commissioners.



SPEAKER BIOGRAPHIES

- **Naomi Alleyne, Director of Social Services and Housing, and Deputy Chief Executive at the Welsh Local Government Association (WLGA)**


Naomi Alleyne is currently the Director of Social Services and Housing and Deputy Chief Executive at the Welsh Local Government Association (WLGA), having previously held the position of Director of Equalities and Social Justice and other posts at the Association since 2002. Her areas of responsibility include issues relating to social services, housing, community safety, including fire and rescue services and the armed forces, and asylum and immigration. She also oversees a range of teams providing support to councils and partners in areas such as autism, creating safer communities and migration. Before joining the Association, Naomi was a secondee to the Welsh Government working on race equality and asylum and immigration issues. She has also worked within two Race Equality Councils, holding the position of Director in the South East Wales REC. With a passionate belief in the importance of equity and fairness in all aspects of life, Naomi has been fortunate in working with a range of organisations and individuals in promoting equality and the importance of local democracy with the aim of improving people's experiences and outcomes across key social policy areas.

- **Emma Thomas, Head of Wales Safer Communities Network**

Emma joins the team from North Wales Police with almost 30 years' service where she was the Head of Crime and Intelligence Analysis. Emma's background in policing includes major and serious organised crime, leading partnership analysis and projects, and she has also been a programme lead for a national risk management tool (MoRiLE). Emma joins the Wales Safer Communities Network directly from a term of secondment with the Wales Violence Prevention Unit (VPU) and is the vice-chair of the Wales Data and Analysis Innovation and Improvement Network (WDAlIN). Emma brings a wealth of experience and expertise and a huge passion for being evidence led, collaborative working, prevention and the Wales safer communities vision.

- **Sarah Capstick, Business & Network Development Manager**

Joining the team from Cardiff Third Sector Council, Sarah has extensive experience of facilitating partnerships and networks in the housing, health, social care and well-being sector. She was the Chair of the Cardiff and Vale Commissioning, Finance and Delivery Group for the Substance Misuse Area Planning Board and of the Cardiff and Vale Learning Disability Partnership Group, as well as representing CVC health and social care leads from across Wales at the Ministerial Third Sector Health, Social Care and Wellbeing meetings. Sarah has been the Chair of a domestic abuse charity, where her expertise on good governance and working in partnership was put to good use. She has a degree in Business Studies with ICT from the Open University and a qualification in Speech and Language Therapy.




SPEAKER BIOGRAPHIES

- **Holly Roberts, Communications and Events Manager**

A native Welsh speaker and champion for inclusivity, Holly joins the Network from the National Autism Team where she led on communications and events. With an English Literature degree from the University of Edinburgh, she is excited to be working in community safety and is eager to begin sharing stories and highlighting the fantastic work taking place in Wales, whilst raising awareness of community safety.

- **Helen Hill, Network Support Officer**

With thirteen years of experience working for Policing in Wales, Helen joins the Network knowing the importance of partnership working. Helen has a degree in Sociology and Criminology from Cardiff University and has been involved with numerous community volunteer programmes recognising her commitment and passion for proactive engagement in keeping Wales a safer place.



FAQs

Q. Will there be a link between the Safer Communities Board and the new Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence (VAWDASV) Partnership Board, which is suggested in the new VAWDASV Strategy?


A. The Network was involved in the development of the VAWDASV Strategy, and we were asked to carry out consultation engagement. It is still under discussion how the Network will best link in with the VAWDASV Partnership Board, however there is a lot of joint working, for example, the Welsh Government VAWDASV team were one of the key partners in the Network's Spiking Workshop in December 2021.

Q. The cost of the membership fee will be a barrier to many of the community led organisations who are the eyes and ears of community safety and could help shape this work. How will you overcome this challenge?

A. We want to ensure that all relevant agencies are able to be a part of the Network, and that includes voluntary and community organisations. Community organisations gather intelligence and have locally based experience that the Network will benefit from. We have started discussions with representatives from the voluntary sector to work out how best to achieve this. We want to ensure that the membership works for everyone, which is why the financial plan and future membership model is being developed collaboratively. This involves listening to our partners and having those discussions within the relevant organisations in order to find a sustainable way forward. Discussions with Local Authorities are underway, and we have created a benefits document which you can download [here](#).

Q. Could the www.safercommunities.wales website be a central repository for Domestic Homicide Reviews (DHRs) in Wales?

A. The Single Unified Safeguarding Reviews (SUSRs) approach that Welsh Government has been promoting is coming into fruition. The work has been taken forward by a number of working groups. The work on the repository, which is being led by the Police and Crime Commissioner of Dyfed Powys, Dafydd Llywelyn, will include DHRs as well as the other safeguarding reviews. This will be an important way of understanding what has happened in many tragic cases in order to avoid those problems arising in



FAQs

the future. Additionally, the Wales Safer Communities Network is the lead organisation for possible commissioning to be responsible for disseminating the information, which in itself is a positive endorsement of the development of the Network.

Q. Has Welsh Government committed to a significant and ongoing financial commitment towards the cost of maintaining the Network?


A. We are very grateful for the initial investment from Welsh Government. Moving forward, the Network wants to work in partnership to ensure a sustainable future. As such, future finances form part of ongoing discussions with all partners, including Welsh Government.

Q. How will the Network link in with the other boards/ networks (for example, the Criminal Justice Boards/ Criminal Justice in Wales/ Public Service Boards) to reduce duplication and establish clear remits? How do we avoid duplication of effort and reporting?

A. In Wales, we are fortunate that there are many connections that sit between these forums. We don't want to duplicate; we want to make sure that those linkages are made to ensure that the work is joined up. Our website is set up to help you with making those connections and understand the complex landscape, and the Network team is there to continue to offer the support. There is so much good work taking place across Wales, and this is an opportunity for us not to duplicate efforts, but rather to be effective, efficient, and to learn from the good practice taking place everywhere and to connect people in the right areas. The Network are already working in partnership with Criminal Justice in Wales to ensure that there are no duplications of effort and reporting.

Q. Sharing of information is a key area that should be improved upon, especially within health. Can we look at a real collective drive to revisit our stance on this? The Data Protection Act was never introduced to prevent helping and supporting individuals, especially those whose capacity to make decisions is impaired.

A. The Network are working closely with the Wales Data Analysis Innovation and Improvement Network (WDIIN), which is Chaired by PCC Dafydd Llywelyn, with Emma Thomas, the Head of the Network, as Vice Chair. There's a lot of work taking place in the information sharing environment, and the evidence-led approach is something that WDIIN are



FAQs

committed to championing. Additionally, there are some key partnership products (e.g. drug market profiles and local serious organised crime profiles) that require everyone to get involved, including Health, in order to bring together the right data sources, which WDAIIN is progressing.

There are some real signs of the relationships coming together, for example, the sharing of data within the safeguarding element which Welsh Government has taken on board. One of the Network's key partners from the outset has been Public Health Wales, who have also been one of the first to step forward both to support the Wales Violence Prevention Unit (VPU) and the Network. Colleagues in Health have been impacted by Covid-19 and are under a lot of pressure, but they play a crucial element in this work. We will need, as always, to work hard on those relationships, as well as the analytic possibilities that WDAIIN is working on.